**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**24 Gorffennaf 2013**

**ADRODDIAD GAN Y PENNAETH CYNLLUNIO A DIOGELU'R CYHOEDD**

# EITEM AR GYFER Y PWYLLGOR CYNLLUNIO
# CYNLLUN DIRPRWYO DIWEDDARAF CYNLLUNIO – FERSIWN 5

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

Pwrpas yr adroddiad cryno hwn yw hysbysu Aelodau o fân ddiwygiadau i Gynllun Dirprwyo cyfredol Cynllunio.
Gwnaed y diwygiadau er mwyn gwella effeithlonrwydd yn y broses ceisiadau cynllunio a chydymffurfiaeth. Wrth awgrymu'r diwygiadau, ystyriwyd materion yn ymwneud â cheisiadau cynllunio ac achosion cydymffurfio a gododd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

## 2. CEFNDIR

Y Cynllun Dirprwyo yw'r ddogfen sy'n nodi'r penderfyniadau yn ymwneud â chynllunio y gellir eu gwneud ar lefel swyddog, neu y dylid eu cyfeirio at y Pwyllgor Cynllunio er mwyn gwneud penderfyniad.

Adolygir y Cynllun Dirprwyo'n flynyddol.

Mae'r diwygiadau a wneir yn yr adolygiad hwn fel a ganlyn:

| **Paragraff** | **Diwygiad** | **Rheswm** |
|---|---|---|
| 2.1.2, 2.2.6, 2.2.10 (v4) | Dilëwyd. | Dilëir unrhyw gyfeiriad at geisiadau a wneir gan, neu ar ran y Cyngor, am 4 rheswm:-<br>• Cyfeirir ceisiadau o'r fath at y Pwyllgor beth bynnag, os yw Swyddogion am gymeradwyo a bod 3 neu fwy o wrthwynebiadau, neu wrthwynebiad gan Gyngor Tref neu Gymuned wedi dod i law.<br>• Cyfeirir ceisiadau o'r fath at y Pwyllgor beth bynnag, os yw Swyddogion am gymeradwyo a bod y cynnig yn gwyro o'r Cynllun Datblygu (e.e. tŷ bwriedig ar gae ysgol y Cyngor)<br>• Mae Aelodau yn dal â'r gallu i alw ceisiadau o'r fath gerbron y Pwyllgor beth bynnag, am resymau cynllunio dilys.<br>• Mae Pennaeth y Gwasanaeth neu'r Rheolwr Rheoli Datblygiadau yn dal â'r gallu i gyflwyno ceisiadau o'r fath i'r Pwyllgor os ydyw'r diddordeb neu'r amgylchiad yn golygu y gellir ei gyfeirio. |
| 2.1.3 (v4) | Geiriad diwygiedig i ddileu **"ac eithrio'r rhai hynny a gyfeirir atynt ym mharagraff 2.26 isod (h.y. dylid adrodd ceisiadau** | Oherwydd adborth gan Aelodau, mae Swyddogion yn teimlo nad oes angen cyflwyno ceisiadau ôl-weithredol yr argymhellwyd eu gwrthod i'r Pwyllgor bellach. Bydd y newid hwn yn galluogi Swyddogion i |

| | | |
|---|---|---|
| | **ôl-weithredol yr argymhellwyd eu gwrthod i'r Pwyllgor)"** | ysgogi camau gorfodi cyflymach yn erbyn datblygiadau annerbyniol heb yr angen i ddisgwyl am benderfyniad Pwyllgor Cynllunio. |
| 2.1.6, 2.1.7 (v4) para 2.1.8 (v4) yn dod yn baragraff 2.1.7 (v5) | Geiriad diwygiedig mewn perthynas ag achosion gorfodi. | Mae'r adran hon wedi'i diwygio i alluogi Swyddogion i ddelio â'r holl achosion gorfodi yn ymwneud â chynllunio ar lefel Swyddog. Mae hwn yn gyson â sawl Awdurdod arall yng Nghonwy. Anaml iawn y bydd Aelodau heb awdurdodi camau gorfodi pan fydd achosion wedi'u cyflwyno gerbron y Pwyllgor. |
| 2.1.12 (v4) yn dod yn baragraff 2.1.11 (v5) | Geiriad diwygiedig i gyfeirio at fân ddiwygiadau at unrhyw **"Hysbysiad gorfodi a awdurdodwyd gan Bwyllgor"** | Pe bai unrhyw achos gorfodi wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor ar gais Aelod, bydd yr adran hon yn galluogi Swyddogion i wneud mân ddigwyddiadau i eiriad yr hysbysiad perthnasol (mewn cysylltiad â'r aelod Lleol) ar lefel Swyddog. |
| 2.1.13 (v5) | Paragraff diwygiedig ar gyfer v5 | Mae'r paragraff hwn wedi'i symud o baragraff 2.1.7 (v4). Mae'n ymwneud â phwerau wedi'u dirprwyo i wneud a chyflwyno Gorchymyn Cadw Coed (TPO) a delio â cheisiadau i wneud gwaith ar goed TPO a choed mewn Ardaloedd Cadwraeth yn destun yr un meini prawf ym mharagraff 2.1.1. |
| 2.2.5 (v4 a v5) | Geiriad diwygiedig i ddileu **"Y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Corfforaethol, Pennaeth Gwasanaeth"** a rhoi **"Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDRh)"** | Er mwyn eglurder ac i symleiddio. |
| 2.2.13 (v4) yn dod yn baragraff 2.1.10 (v5) | Geiriad diwygiedig i fewnosod **"mewn ymgynghoriad â Swyddog Monitro**" ac yn adran b), i fewnosod **"galw i mewn posibl gan Lywodraeth Cymru"** | Mae'r adran hon wedi'i diwygio er mwyn egluro'r ffordd y cyfeirir ceisiadau yn ôl at y Pwyllgor Cynllunio er mwyn eu hadolygu. Bydd Pennaeth y Gwasanaeth yn ymgysylltu â'r Swyddog Monitro cyn cyfeirio'r ceisiadau yn ôl. Yn ogystal, yn seiliedig ar achos blaenorol, cyfeirir rŵan at alwadau i mewn posibl Llywodraeth Cymru. |
| 2.2.14 (v4) yn dod yn baragraff 2.2.11 (v5) | Geiriad diwygiedig yn v5. | Mae'r geiriad wedi'i ddiwygio i bwysleisio'r rhesymeg y tu ôl i ddychwelyd ceisiadau penodol yn ôl i'r Pwyllgor i ddiogelu buddiannau'r Cyngor. |
| **Ar gyfer yr Adran Eglurder** | Nodyn ychwanegol ar ddechrau v5. | Mae nodyn wedi'i ychwanegu i bwysleisio bod cyfeirio at "unrhyw gais" o fewn y prif gynllun yn cynnwys ceisiadau a wnaed gan, neu ar ran, y Cyngor. |
| **Ar gyfer yr Adran Eglurder** | Nodyn ychwanegol ar ddiwedd v5. | Mae nodyn wedi'i ychwanegu i egluro'r rhestri o hysbysiadau gorfodi'n ymwneud â chynllunio. |

Mae'r cynllun diwygiedig (Fersiwn 5) wedi'i atodi i'r adroddiad hwn er gwybodaeth i Aelodau **(atodiad A).** Mae copi o'r cynllun cyfredol (Fersiwn 4) hefyd wedi'i atodi er mwyn cyfeirio atynt (**atodiad B**). Pe bai unrhyw Aelod eisiau trafod cynnwys y Cynllun Dirprwyo ar unrhyw adeg, dylent gysylltu naill â:-

Paul Mead, Rheolwr Rheoli Datblygu a Chydymffurfiad - 6712

Judith Williams, Swyddog Gwella Gwasanaeth Cwsmer – 6722.

## 3. ARGYMHELLIAD

Bod Aelodau’n cymeradwyo cynnwys yr adroddiad hwn a'r fersiwn 5 newydd o'r Cynllun Dirprwyo.